

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Wener y 23ain o Ebrill 2021 am 8.00 o'r gloch drwy gyfrwng zoom.

Presennol; Cyng. Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Arfon Hughes, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso i bawb y Cynghorydd Berwyn Hughes. Roedd ymddiheuriad gan y Cyng Berwyn Harding.
2. Adroddwyd y cefndir, sef fod cais wedi ei dderbyn i'r Cyngor gan un teulu i gladdu llwch ym mynwent y Dinas. Roedd cyfarfod byr esioes wedi ei gynnal yn y fynwent rhwng Berwyn Hughes a Hedd Pugh fel Swyddogion y Cyngor, a Dilwyn Rees a Dylan yr ymgymerywr i drafod y sefyllfa. Gan fod angen penderfyniad ar hyn cyn ein cyfarfod nesaf fel Cyngor ar y 26ain o Fai, gwelwyd mai doeth fyddai cynnal cyfarfod byr ar zoom i gael sel bendith y Cyngor llawn ar y mater, a chael trefniant cydnabyddedig i'r dyfodol.
Roedd awgrym wedi ei roi yn yr e-bost a ddanfonwyd gan y Clerc ar y 18fed o Ebrill y gallai unrhyw un o'r Cynghorwyr alw yn y fynwent rhywdro cyn y cyfarfod os am edrych yn fwy manwl ar y sefyllfa.
3. Nodwyd fod dau opsiwn dan sylw gyda claddu y llwch ychydig uwchlaw y wal bresennol, sef rhoi carreg fach yno, neu roi plac ar y wal ei hun. Nodwyd y byddai rhaid claddu llwch o dan y llwybr yn y safle sydd wedi ei baratoi os oedd dymuniad I gareg carreg fedd o'r maint arferol.
4. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd, ar gynnig Cyng Arfon Hughes a'i eilio gan Idris Jones, a gyda chefnogaeth pawb yn bresennol, y dylid dewis yr opsiwn o gael plac ar y wal. Rhoddwyd engraifft o'r plac haearn gan Cyng Berwyn Hughes, a oedd yn 6" x 3", ac roedd llun wedi ei ddanfon I bawb drwy y Clerc yn gynharach yn y dydd.
Penderfynwyd hefyd y dylai y placiau fod yn unffurf, a dim mwy na maint y garreg, sef 22" x 10.5". Penderfynwyd y dylid cychwyn o ochr y cerrig beddi presennol, a gweithio yn ol at y giat.
5. Nodwyd fod angen cael gliw pwrpasol I wneud y garreg yn ddiogel cyn cychwyn, ac mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned oedd hyn.
Roedd angen gwneud hyn yn awr I'r rhai oedd yn rhydd. Nodwyd hefyd, os oedd carreg yn cael ei thorri wrth roi y plac arni, yna cyfrifoldeb y teuluoedd dan sylw oedd hyn.

Daethpwyd a'r cyfarfod I ben am 8.30yh gyda geiriau o ddiolch i bawb am ymuno gan y Cyng Berwyn Hughes.